The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Enw'r prosiect** | Piblinell Carbon Deuocsid HyNet |
| **Cyfeirnod Ffeil** | EN070007 |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| **Dyddiad** | 23 Awst 2022 |
| **Cyfarfod gyda** | Liverpool Bay CCS Limited |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Amcanion y cyfarfod** | Cyfarfod rhoi Diweddariad ar y Prosiect |
| **Dosbarthiad** | Yr holl fynychwyr |

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd a chyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008 (PA2008). Ni fyddai unrhyw gyngor a roddwyd o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

### *Diweddariad ar brosiect HyNet*

Ar 12 Awst 2022, rhyddhaodd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ddiweddariad Cam 2 ar bennu dilyniant o glystyrau. Mae chwech o safleoedd HyNet wedi'u nodi fel rhai sy'n gymwys i dderbyn cymorth y Llywodraeth; un o'r rheiny yw Padeswood Cement Works yn Sir y Fflint, a fyddai'n cael ei wasanaethu gan y Biblinell Carbon Deuocsid arfaethedig. Dywedodd yr Ymgeisydd fod hyn yn dangos cryfder HyNet yn ei bensaernïaeth a'i bwysigrwydd fel prosiect clwstwr trac 1.

Nododd yr Ymgeisydd ei fod wedi cynnal ymweliadau/ taith ymgysylltu llwyddiannus gydag uwch swyddogion o BEIS, y Pwyllgor Newid Hinsawdd ac Ofgem ym mis Awst. Eglurodd yr Ymgeisydd fod hyn wedi cael derbyniad da a'i fod wedi galluogi mynychwyr i gael cyd-destun ynglŷn â'r consortiwm.

Dywedodd yr Ymgeisydd fod y gwaith cynhyrchu hydrogen (Vertex) yn dal o fewn proses benderfynu Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (TCPA), fod Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) (Cadent) y biblinell hydrogen wedi cwblhau ymgynghoriad anstatudol a'i fod bellach wrthi'n cynhyrchu Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR) ac yn paratoi ar gyfer ymgynghoriad statudol. Eglurodd yr Ymgeisydd ymhellach fod y storfa Hydrogen (Inovyn) yn rhan o astudiaeth FEED ac yn ystyried y camau nesaf ar gyfer proses ymgeisio Newid Ansylweddol (NMC) ar gyfer ei DCO presennol.

Cadarnhaodd yr ymgeisydd fod CF Fertilisers wedi cwblhau ei broses ymgynghori ac wedi cadarnhau ei fwriad i gau cyfleuster Ince, er nad yw hyn yn newid effaith yr hyn y mae prosiect HyNet yn mynd i'w gyflawni.

Holodd yr Arolygiaeth a oes unrhyw raddfeydd amser o ran penderfyniad TCPA Vertex. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd yn adolygu ac yn diweddaru'r Arolygiaeth ar ôl y cyfarfod.

## *Canlyniad ymgynghori targedig pellach*

Ers y cyfarfod diwethaf, mae'r Ymgeisydd wedi cynnal tair rownd ymgynghori targedig.

- **Rownd un** – cynhaliwyd o 17 Mehefin i 19 Gorffennaf 2022. Nododd yr Ymgeisydd ei fod wedi ymgynghori ar 24 o fân newidiadau i'r dyluniad ac wedi derbyn 46 o ymatebion.
- **Rownd dau** - cynhaliwyd o 25 Mehefin i 25 Gorffennaf 2022. Dywedodd yr Ymgeisydd fod llythyrau wedi'u hanfon at ryw 10 o dirfeddianwyr ar chwech o newidiadau i derfynau gorchymyn a gipiwyd yn ymgynghoriad rownd un. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd nad oedd unrhyw ymatebion wedi'u derbyn.
- **Rownd tri** - cynhaliwyd o 22 Gorffennaf i 19 Awst 2022. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod wedi ymgynghori ar bum newid arall (dau newid i'r draeniad a thri o newidiadau i leiniau gweledd). Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod wedi ymgynghori â thirfeddianwyr perthnasol ac Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA) a'i fod wedi derbyn pump o ymatebion.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod y strategaeth ymgynghori dargedig wedi'i chytuno gyda Chyngor Sir y Fflint a Chyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer (CWCC).

Fel rhan o ymgynghoriad rownd tri yr Ymgeisydd, roedd wedi gwneud mân ddiwygiadau i derfynau'r gorchymyn i ddileu dewisoldeb. Holodd yr Arolygiaeth a fydd unrhyw ddewisoldeb o ran llwybro yn cael ei ddwyn ymlaen i'r cais DCO. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod y llwybr wedi cael ei gwblhau ac na fydd y DCO yn cynnwys dewisoldeb o ran llwybro.

## *Diweddariad ar y Rhaglen*

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn bwriadu cyflwyno'i gais DCO o fewn cyfnod amser o bythefnos (26 Medi - 7 Hydref 2022). Ei ddyddiad targed presennol ar gyfer cyflwyno yw 30 Medi 2022. Atgoffodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i gyflwyno'i ffeil siâp GIS o leiaf 10 niwrnod gwaith cyn cyflwyno'r DCO.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd hefyd fod cyflwyno'r cais TCPA wedi llithro ar ei hôl hi fymryn; bydd yr ymgynghoriad cyn-ymgeisio yn cael ei gynnal ar ddechrau chwarter 4 2022, a bydd y cais yn cael ei gyflwyno'n ddiweddarach yn chwarter 4 2022.

## *Diweddariad Cynllunio*

Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod yn cynllunio i gyflwyno'r cais DCO drwy WeTransfer. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i gynnal prawf o'r cyswllt a'r mynediad gofynnol gyda'r Arolygiaeth cyn ei gyflwyno.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd yn mabwysiadu dull digidol yn ddiofyn ac yn cyflwyno gan gydymffurfio â Nodyn Cyngor chwech yr Arolygiaeth.

Eglurodd yr Ymgeisydd ei fod yn parhau i gynnal cyfarfodydd misol ar y cyd â'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) a'i fod yn cynnal gweithdy ar wahân gyda'r ACLlau ar ddechrau mis Medi i drafod y dDCO.

## *Diweddariad Amgylcheddol*

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod ei Ddatganiad Amgylcheddol yn ei gamau cynhyrchu olaf a'i fod yn destun adolygiadau mewnol. Eglurodd yr Ymgeisydd y bydd y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol (OCEMP) yn ddogfen annibynnol sy'n cyfeirio at y ddogfen Cofrestr o Gamau Gweithredu ac Ymrwymiadau Amgylcheddol (REAC) a fydd hefyd yn ddogfen annibynnol y gellir ei chyflwyno ar gyfer y DCO.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod ganddo ddogfennau cyfrinachol a fydd yn cael eu cyflwyno fel atodiadau annibynnol ac a fydd yn hawdd eu hadnabod.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod yr holl arolygon ecolegol wedi'u cwblhau ac eithrio ar gyfer ystlumod, dyfrgwn a llygod y dŵr.

Holodd yr Arolygiaeth a yw Datganiad Amgylcheddol yr Ymgeisydd yn egluro pam y dylai'r Arolygiaeth ystyried bod y Datganiad Amgylcheddol yn ddigonol os nad yw'r arolygon wedi'u cwblhau. Dywedodd yr Ymgeisydd y bydd y Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys cyfiawnhad ynglŷn â sut y byddai hyn yn bod, yn absenoldeb yr arolygon wedi'u cwblhau.

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio ei bod o gymorth pe bai'r Ymgeisydd yn cyflwyno sylwadau ymgynghori/sylwadau yn y Datganiad Amgylcheddol a'r modd yr oedd yn ymateb iddynt ar ddechrau pob pennod. Awgrymodd yr Arolygiaeth y dylid cynnwys tystiolaeth o gytundeb ag ymgyngoreion statudol ar bwyntiau allweddol, er enghraifft copïau o negeseuon e-bost, yn y Datganiad Amgylcheddol, os oes modd.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn gweithio ar y Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) ond mae'n debygol y bydd y rhain yn cael eu cyflwyno ar ôl y cam derbyn ond cyn yr Archwiliad. Nododd yr Arolygiaeth fod llawer o sefydliadau'n amharod i lofnodi Datganiadau Tir Cyffredin hyd nes eu bod wedi gweld y cais llawn.

## *Caffael yn Orfodol a Hawliau Tir*

Eglurodd yr Ymgeisydd fod oddeutu 512 o blotiau tir wedi'u nodi yn y Llyfr Cyfeirnodau (BoR) a bod hyn yn cwmpasu tua 574 o dirfeddianwyr gwahanol.

Rhoddodd yr Ymgeisydd ddiweddariad ar ei gynnydd ar gytundebau gyda thirfeddianwyr. Dywedodd yr Ymgeisydd fod Penawdau'r Telerau wedi'u hanfon at dirfeddianwyr, ac y bydd rhai pellach yn cael eu hanfon cyn hir i gwmpasu elfennau daear.

Dywedodd yr Ymgeisydd fod Tir y Goron wedi'i nodi o fewn terfynau'r gorchymyn yn ogystal â thir Categori Arbennig ac Ymgymerwr Statudol. O ran y tir Categori Arbennig, nododd yr Ymgeisydd yr effeithir ar un plot gan y biblinell newydd, ac ar dri phlot ar lwybr y biblinell bresennol. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod llythyrau a42b wedi'u hanfon yn ystod yr

ymgynghoriad, a'i fod yn cyfranogi mewn trafodaethau parhaus gyda deiliaid asedau ynglŷn ag ardaloedd yr effeithir arnynt gan y biblinell.

Holodd yr Arolygiaeth a yw'r Ymgeisydd yn ceisio tir cyfnewid ar gyfer y comin a nodwyd fel Tir Categori Arbennig. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd nad ydyw gan fod ymchwil bellach wedi cadarnhau nad effeithir ar y tir mwyach ac y bydd yr Ymgeisydd yn defnyddio technegau drilio cyfeiriadol llorweddol (HDD).

## *Penderfyniadau penodol/camau dilynol yn angenrheidiol?*

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Yr Ymgeisydd i wirio a diweddaru ar raddfeydd amser penderfyniad TCPA Vertex;
- Mae'r Ymgeisydd wedi cytuno i gynnal prawf o'r ddolen WeTransfer gyda'r Arolygiaeth cyn cyflwyno'r DCO.